**TAG UG/Uwch**

593/01

# CYMRAEG AIL IAITH
# *(WELSH SECOND LANGUAGE)*
# CA3
## DEFNYDDIO'R IAITH A BARDDONIAETH

P.M. DYDD IAU, 15 Mai 2008
*P.M. THURSDAY, 15 May 2008*

2 awr

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn bydd angen llyfr ateb 8 tudalen.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Atebwch **bob** cwestiwn yn Adran A ac Adran B.
Dylech dreulio **AWR** ar bob adran.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Rhoddir nifer y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

**Ni** chaniateir defnyddio copïau o'r farddoniaeth na geiriaduron.

***ADDITIONAL MATERIALS***

*In addition to this examination paper you will need an 8 page answer book.*

***INSTRUCTIONS FOR CANDIDATES***

*Answer **all** questions in Section A and Section B.*
*You should spend **1 HOUR** on each section.*

***INFORMATION FOR CANDIDATES***

*The number of marks allocated for each question or part-question is given in brackets.*

*Copies of the poetry and dictionaries are **not** permitted.*

## ADRAN A

### Defnyddio'r Iaith

**1.** Lluniwch frawddegau **(un frawddeg yr un)** i ddangos yn eglur ystyr y priod-ddulliau a'r geiriau tebyg canlynol: [20]

(i) ar fy mhen fy hun

(ii) bob amser

(iii) cyn bo hir

(iv) dal ati

(v) gwneud ei gorau glas

(vi) rhoi'r gorau i

(vii) celwydd golau

(viii) ar bigau'r drain

(ix) ffôn

(x) ffon

**2.** Ailysgrifennwch y brawddegau canlynol gan gywiro'r gwallau sydd wedi eu tanlinellu. [20]

*(a)* Gofynnwch i nhw am y llyfr.

*(b)* Mae'n well gen i wrando i'r radio.

*(c)* Ysgrifennodd nhw ateb da.

*(ch)* Roeddwn i wrth fy modd pan gwelais i fy ffrind.

*(d)* Doedd i ddim yn deall y cwestiwn.

*(dd)* Dechreuodd hi yn y coleg tair blwyddyn yn ôl.

*(e)* Darllenais i llyfr da dros y gwyliau.

*(f)* Aethon fy ffrind a fi i'r sinema neithiwr.

*(ff)* Fe ydy'r bachgen pwy sy'n gweithio yn y banc.

*(g)* Hoffwn i ddim yn byw mewn dinas.

**3.** Darllenwch yr addasiad canlynol o gyfweliad rhwng Siân a Tanni Grey-Thompson, a chwblhewch y dasg isod. [20]



Siân: O ble rydych chi'n dod yn wreiddiol?
Tanni: Ces i fy ngeni a magu yng Nghaerdydd.
Siân: A ble rydych chi'n byw nawr?
Tanni: Rydw i'n byw nawr yn Redcar, Gogledd Lloegr.
Siân: Ble buoch chi yn y coleg?
Tanni: Es i i Brifysgol Loughborough ac astudiais i wleidyddiaeth yno.
Siân: Dywedwch ychydig am eich teulu.
Tanni: Priodes i Ian naw mlynedd yn ôl ac mae gen i un ferch fach o'r enw Carys.
Siân: Rydych chi'n enwog iawn fel athletwraig. Dywedwch ychydig o'ch hanes.
Tanni: Cystadles i yn y Gêmau Paralympaidd, Pencampwriaethau'r Byd a Marathon Llundain.
Siân: Ac ennill medalau?
Tanni: Enillais 19 o fedalau i gyd ac ennill marathon Llundain chwe gwaith.
Siân: Rydych chi wedi dysgu Cymraeg.
Tanni: Bues ar gwrs Cymraeg yn Nant Gwrtheyrn.
Siân: A nawr?
Tanni: Rydw i wedi ymddeol o gystadlu nawr ac wedi dechrau hyfforddi. Yn ddiweddar ymunes i â *UK Athletic* fel gweinyddwraig.

Gan ddefnyddio'r holl wybodaeth am Tanni yn y cyfweliad, ysgrifennwch erthygl ffurfiol ar gyfer cylchgrawn Cymraeg yn sôn amdani.

Dechreuwch fel hyn:

'Cafodd Tanni Grey-Thompson ei geni a'i magu yng Nghaerdydd…'

(Bydd yn rhaid newid **10 eitem** wrth ysgrifennu'r erthygl.)

## ADRAN B

## Barddoniaeth

**(Gwobrwyir dyfynnu pwrpasol wrth ateb y cwestiwn hwn)**

*(a)* Yn y gerdd *Cilmeri* gan Gerallt Lloyd Owen mae'r bardd yn disgrifio'r man lle cafodd Llywelyn ei ladd. **Yn eich geiriau eich hun**, disgrifiwch yr hyn mae'r bardd yn ei ddweud yn y gerdd. [20]

*(b)* Pa dechnegau y mae'r bardd yn eu defnyddio i gyflwyno'i neges yn y gerdd hon?
Yn eich barn chi beth ydy effaith y technegau hyn? [20]

*(c)* Rhowch eich **ymateb personol** i'r gerdd hon a'i phwnc. [20]